Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Caereinion

**Llanfair Caereinion**
**Y Trallwng**
**Powys**
**SY21 0HW**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Caereinion

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Caereinion |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Ysgolion pob oed |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 572 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 506 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 50 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector ysgolion pob oed yw 21.6%) | 8.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector ysgolion pob oed yw 11.0%) | 18.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 34.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/04/2024 |
| Hwn yw arolygiad cyntaf Ysgol Bro Caereinion ers ei hagor yn ysgol bob oed ym mis Medi 2022. | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Bro Caereinion yn gymuned ysgol groesawgar lle caiff disgyblion eu parchu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas adeiladau'r ysgol. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o staff berthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion. Yn y sector cynradd, mae ansawdd yr addysgu yn dda bron bob amser. Mae staff yn darparu gweithgareddau diddorol sy'n datblygu chwilfrydedd disgyblion fel dysgwyr annibynnol yn dda. Mae llawer o athrawon yn y sector uwchradd yn rhannu eu gwybodaeth bwnc yn effeithiol, ac mae ychydig ohonynt yn ennyn diddordeb disgyblion â brwdfrydedd ac egni nodedig. O ganlyniad, ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn, o leiaf.

Yn y sector cynradd, mae disgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau ac yn gwneud cynnydd cyson. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn llwyddiannus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm erbyn diwedd Blwyddyn 6. Yn y sector uwchradd, caiff disgyblion gyfleoedd addas i gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn gwersi. Fodd bynnag, ni chaiff cyfleoedd o'r fath eu cyflwyno'n ddigon strategol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn raddol dros gyfnod.

Mae arweinwyr yn gweithio'n frwdfrydig i sefydlu arferion gweithio i alluogi ysgol bob oed newydd i lwyddo. Maent yn cynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol sy'n sicrhau ethos gwaith tîm. At ei gilydd, mae arweinwyr yn canolbwyntio gormod ar faterion gweithredol. O ganlyniad, nid yw eu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol a'i chyfeiriad strategol wedi'u datblygu'n ddigonol. Yn ychwanegol, nid yw prosesau ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer gwelliannau bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar yr effaith ar ddisgyblion. Er gwaethaf y gwendidau hyn mewn arweinyddiaeth strategol, mae ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth, yn enwedig yn y sector cynradd, yn effeithiol, ar y cyfan. Ers iddi agor, mae'r ysgol wedi sefydlu ystod o weithdrefnau priodol ar gyfer cadw dysgwyr yn ddiogel. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r tîm arolygu at ychydig o faterion yn ymwneud â diogelu. Trafodwyd y rhain gydag arweinwyr a chynrychiolydd o'r awdurdod lleol.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r materion diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu'n strategol ac yn sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol

A3 Cryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel bod effaith yr addysgu yn canolbwyntio ar safonau disgyblion

A4 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda’r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn y sector cynradd, gan ddatblygu eu medrau rhifedd, llythrennedd a digidol yn dda. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu, eu gwybodaeth bwnc a’u dealltwriaeth yn ystod eu cyfnod yn y sector uwchradd. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn cymhwyso’u gwybodaeth a’u medrau yn hyfedr mewn cyd-destunau newydd.

Yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg a’r ffrwd cyfrwng Saesneg, fel ei gilydd, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda o oedran cynnar. Maent yn gwrando’n astud ar eu cyfoedion a staff. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn rhugl, gan esbonio eu gwaith mewn manylder addas. Yn y sector uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau siarad â mynegiant aeddfed, gan ddefnyddio terminoleg sy’n benodol i bwnc, lle bo’n briodol. Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwrando’n astud ar gyfraniadau disgyblion eraill, ac yn cynorthwyo’i gilydd yn ystod trafodaethau grŵp. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ymhelaethu ar eu hatebion wrth ymateb i gwestiynau athrawon, ac yn cynnwys rhesymau dilys i gefnogi’r pwyntiau a wnânt. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn siarad yn hyderus yn Gymraeg gyda staff, er bod mwyafrif ohonynt yn tueddu i siarad Saesneg wrth weithio’n annibynnol neu gyda grwpiau o’u cyfoedion.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cynnar yn dda. Maent yn adnabod y synau a gynrychiolir gan wahanol lythrennau, ac yn dechrau datblygu strategaethau priodol i ddadgodio geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda graddau addas o rugldер. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos mwynhad cynyddol o ddarllen. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn trafod eu nofel ddosbarth yn hyderus ac yn rhannu eu barn am wahanol awduron. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso’u medrau darllen yn llwyddiannus mewn ystod addas o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn llunio casgliadau o erthyglau am brofiadau Emmett Till yn Mississippi mewn gwersi hanes. Mewn gwersi Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi testunau yn briodol. Er enghraifft, maent yn rhoi sylwadau ar ddyfeisiau llenyddol a ddefnyddir mewn detholiadau o ‘Macbeth’. Mae llawer o ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn nodi a thrafod effaith technegau llenyddol yn briodol yn eu gwersi Cymraeg, er enghraifft wrth ddadansoddi’r gerdd ‘Y Plas Gwag’ gan Emrys Roberts.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn dechrau ffurfio llythrennau o oedran cynnar ac yn datblygu i ysgrifennu geiriau a ffurfio brawddegau syml. Erbyn

diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu â hyder cynyddol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu llawysgrifen ddarllenadwy ac yn dechrau ysgrifennu'n effeithiol at wahanol ddibenion yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn adrodd chwedl dylwyth teg Elen Benfelen gyda chymorth sbardunau gweledol. Mae llawer o ddisgyblion oedran cynradd hŷn yn ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol genres gan ystyried eu cynulleidfa yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y sector cynradd yn ymfalchïo mewn cyflwyno'u gwaith yn daclus.

Yn y sector uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn ysgrifennu'n glir ac yn estynedig yn y ddwy iaith. Er enghraifft, mewn gwersi Cymraeg, maent yn dewis geirfa i greu effaith yn dda wrth ysgrifennu stori arswyd. Maent yn cyfleu eu syniadau'n gydlynus ac yn strwythuro eu gwaith yn dda. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn gwneud camgymeriadau gramadegol, treiglo a sillafu diofal. Yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig gyda graddau da o gywirdeb mewn gwahanol bynciau. Maent yn saernïo ymatebion manwl, er enghraifft wrth ystyried effeithiau newid hinsawdd ar y Deyrnas Unedig a Bangladesh mewn gwersi daearyddiaeth. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n estynedig at ddiben, er enghraifft wrth ysgrifennu araith i efelychu William Wilberforce mewn gwersi hanes. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, caiff cyfleoedd disgyblion i ysgrifennu'n estynedig eu rhwystro gan ddibyniaeth ormodol ar daflenni gwaith.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn y ffrwd cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd addas yn datblygu medrau sylfaenol mewn siarad Cymraeg a gwrando ar y Gymraeg, fel rhannu gwybodaeth amdanyn nhw eu hunain. Yn ystod eu cyfnod yn y sector cynradd, maent yn parhau i ddatblygu ystod gyfyngedig o eirfa Gymraeg ychwanegol. Mewn gwersi Cymraeg yn y sector uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Saesneg yn ynganu geiriau ac ymadroddion byr yn glir, yn adalw gwybodaeth o wahanol destunau yn effeithiol, ac yn rhoi ymatebion wedi'u datblygu'n addas ar lafar i gwestiynau athrawon. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos cywirdeb wrth ynganu geirfa newydd ac yn cynnal sgyrsiau byr yn Gymraeg mewn parau neu grwpiau â hyder cynyddol. Mewn gweithgareddau darllen, mae llawer o ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Saesneg yn dangos eu gallu i alw geirfa sylfaenol i gof yn briodol, sy'n eu galluogi i nodi manylion allweddol mewn darnau byr. O roi'r cyfle iddynt, mae mwyafrif y disgyblion yn strwythuro paragraffau estynedig yn Gymraeg yn briodol, er enghraifft pan fydd disgyblion Blwyddyn 9 yn ysgrifennu darnau yn rhoi eu barn ar bwysigrwydd bwyta'n iach.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarthiadau derbyn yn dechrau cyfrif yn gywir gan ddefnyddio adnoddau fel marblis a darnau arian i'w helpu. Yn ystod eu cyfnod yn y sector cynradd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu hyder i gymhwyso'u medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn dewis offer priodol i fesur cyfaint hylifau wrth ddilyn ryseitiau i wneud diodydd hud. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth addas o gysyniadau mathemategol cynyddol soffistigedig wrth iddynt symud ymlaen trwy'r sector uwchradd ac yn defnyddio'r pedair rheol rhif yn briodol. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio swyddogaethau mathemategol i ddatrys problemau fel y rhai sy'n cynnwys pwerau ac israddau. Mae llawer ohonynt yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda mewn

pynciau heblaw mathemateg. Er enghraifft, maent yn datrys problemau rhifiadol yn fedrus wrth gyfrifo pydredd hanner oes ac ymbelydrol. Mae llawer ohonynt yn tynnu llun graffiau hinsawdd â chywirdeb addas, gan blotio bariau glawiad a llinellau tymheredd yn briodol. Mae ychydig ohonynt yn llai hyderus wrth arddangos data a dehongli'r canlyniadau, ac weithiau, cânt eu rhwystro gan dasgau neu adnoddau amhriodol. Ar y cyfan, nid ydynt yn adeiladu'n raddol ar y medrau hyn dros gyfnod oherwydd diffygion yng nghynllunio athrawon ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion oedran cynradd yn cymhwyso'u medrau digidol yn dda yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio pecynnau celf yn hyderus ac yn dechrau defnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i ffeithiau. Ym Mlwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio meddalwedd codio â hyder cynyddol i anfon tegan rhaglenadwy o gwmpas drysfa, ac yn creu cwisiau rhyngweithiol difyr ar gyfer eu cyfoedion yn seiliedig ar y testun presennol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion uwchradd yn parhau i gymhwyso medrau digidol yn briodol, pan roddir cyfleoedd iddynt wneud hynny. Yn yr enghreifftiau cryfaf, mae disgyblion yn datblygu medrau digidol, llythrennedd a chreadigol gyda'i gilydd mewn cyd-destunau sy'n cefnogi eu dysgu mewn pynciau eraill yn dda. Er enghraifft, mewn gwersi hanes, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn defnyddio technoleg sgrin werdd i greu adroddiadau newyddion am weithredoedd y Gwylliaid Cochion.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol yn briodol. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn defnyddio ystod eang o ddeunyddiau i greu modelau syml o gychod a chreaduriaid y môr. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn creu brasluniau medrus mewn arddulliau penodol, er enghraifft wrth greu darluniau yn arddull anime. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau creadigol mewn celf yn y sector uwchradd, gan ffurfio syniadau gwreiddiol a newydd o symbyliadau gweledol, ac mae llawer ohonynt yn cymhwyso profi a methu, a mentro. Mae llawer ohonynt yn arbrofi ag ystod o ffurfiau celf, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio linoliwm i ddylunio logos pêl-droed. At ei gilydd, mae medrau creadigol disgyblion hŷn trwy ddisgyblaethau eraill yn llai datblygedig, yn bennaf oherwydd diffyg cyfleoedd. Mae bron pob un o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau echddygol manwl a bras yn briodol trwy weithgareddau yn yr ystafelloedd dosbarth a'r awyr agored. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn ymdrin â deunyddiau mawr fel pren a brethyn wrth weithio gyda'i gilydd i adeiladu cwch. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu medrau corfforol yn dda mewn gwersi addysg gorfforol. Er enghraifft, yn ystod sesiynau athletau, mae llawer ohonynt yn rhedeg yn rhwydd ac yn esmwyth gan ddangos gwydnwch a stamina.

Mae bron pob un o ddisgyblion y chweched dosbarth yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod gwersi. Dangosant lefelau uchel o barch at yr athro, ac at ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhoi ymatebion defnyddiol ac ystyriol ar lafar gan ddefnyddio terminoleg pwnc yn hyderus. Er enghraifft, mewn gwersi llenyddiaeth Saesneg, mae bron pob un o ddisgyblion Blwyddyn 12 yn gwneud cysylltiadau soffistigedig rhwng barddoniaeth Seamus Heaney ac Owen Sheers. Dangosant lefelau uchel o annibyniaeth wrth weithio ac ymgysylltu'n dda yn ystod gwersi.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae gan bron pob un o'r disgyblion yn Ysgol Bro Caereinion ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y sector cynradd a llawer yn y sector uwchradd yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn ymwybodol o bwy i droi ato os oes angen mwy o gymorth arnynt. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais a chroesawgar tuag at gyfoedion, staff ac ymwelwyr, ac mae llawer ohonynt yn rhyngweithio'n hyderus. Mae llawer o ddisgyblion o'r farn eu bod yn cael eu trin yn deg a'u cynorthwyo'n dda gan staff mewn gwersi a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hon yn nodwedd gref yn yr ysgol. Yn y sector uwchradd, mae disgyblion yn elwa ar y cymorth sensitif ar gyfer eu lles emosiynol a ddarperir gan staff yn yr 'Hafan'.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn mewn modd eithriadol o dda ac maent yn barchus a chwrtais wrth iddynt ryngweithio â'r staff ac â'i gilydd. Maent yn deall y polisi ymddygiad newydd ac yn credu ei fod yn deg ac effeithiol. Mae disgyblion yn y sector cynradd yn deall diben gwobrau, rheolau a chosbau ac yn mwynhau Amser Aur a dathliadau gwaith da ar ddiwedd tymor. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu, yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn ymdawelu'n gyflym i ymgysylltu â'u dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn gweithio'n dda mewn gweithgareddau grŵp. Maent yn dyfalbarhau â thasgau heriol ac yn awyddus i lwyddo. Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn wydn i ddatrys problemau wrth weithio mewn cyd-destunau annibynnol, er enghraifft pan fydd disgyblion ym Mlwyddyn 7 yn dadansoddi gwahanol ffynonellau hanesyddol. Yn y sector cynradd, mae llawer o ddisgyblion yn myfyrio ar eu gwaith eu hunain fel mater o drefn, ac erbyn Blwyddyn 6, maent yn gwneud gwelliannau i ansawdd eu gwaith yn sgil adborth. Mae'r graddau y mae disgyblion oedran uwchradd yn mireinio eu gwaith yn rhy amrywiol, yn bennaf oherwydd cyfleoedd anghyson i wneud hynny.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, fel y clwb technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a chorau'r ysgol. Er bod ychydig o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfle i gymryd rhan mewn twrnameintiau tîm chwaraeon traddodiadol, mae llai o gyfleoedd ar gyfer disgyblion sy'n dymuno cymryd rhan mewn chwaraeon anghystadleuol. Mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i wneud dewisiadau bywyd iach.

Caiff disgyblion yn y sector cynradd gyfleoedd gwerthfawr, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at eu datblygiad personol, fel trefnu bore coffi elusennol. Yn y sector uwchradd, mae cynrychiolwyr disgyblion yn dechrau elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain mewn ychydig o grwpiau disgyblion, fel y Criw Cymraeg, sy'n trefnu gweithgareddau fel Dydd Miwsig Cymru. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ansicr ynglŷn â sut mae'r ysgol yn ystyried eu barn.

Yn 2022-2023, roedd presenoldeb yn llawer uwch na phresenoldeb ysgolion tebyg. Roedd y gyfradd absenoldeb parhaus gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae data heb ei wirio yn dangos bod cyfraddau presenoldeb wedi gwella ymhellach yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol.

Mae llawer o ddisgyblion yn y chweched dosbarth o'r farn fod yr ysgol yn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau nesaf, er enghraifft wrth ystyried opsiynau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y chweched dosbarth yn hapus â bywyd yn yr ysgol. Mae ganddynt berthnasoedd da â'u hathrawon ac mae llawer o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael cymorth da. Maent yn werthfawrogol o'r cyfleoedd i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth trwy amrywiaeth o ymweliadau addysgol buddiol, yn enwedig yr ymweliadau â theatrau ac operâu. Mae bron pob un o ddisgyblion y chweched dosbarth wedi'u cymell, ac yn dangos mwynhad yn eu pwnc. Maent yn trafod a disgrifio'u gwaith yn hyderus, gan ddefnyddio ystod eang o eirfa sy'n benodol i bwnc.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn creu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â nhw. Maent yn annog ac yn cymell disgyblion trwy gymorth a chanmoliaeth unigol. Pan fo'n briodol, mae athrawon yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn bwrpasol i gynorthwyo disgyblion yn eu dysgu.

Mae gwybodaeth bwnc y rhan fwyaf o athrawon yn gadarn a chyfoes, ac maent yn rhannu'r wybodaeth hon yn effeithiol â disgyblion. Maent yn defnyddio tafodiaith leol yn effeithiol ac yn fodelau iaith cryf. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu gwella'u hymatebion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae llawer o athrawon yn cynllunio'u sesiynau'n ofalus gyda chamau dilyniannol clir sy'n meithrin gwybodaeth disgyblion. Maent yn paratoi ystod o dasgau a gweithgareddau gwerthfawr i ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol, gan addasu dulliau i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY, lle bo'n briodol. Mae'r athrawon hyn yn rhoi cyfarwyddiadau clir a buddiol ar gyfer tasgau, yn annog annibyniaeth, ac yn cylchu'r dosbarth yn bwrpasol i gynorthwyo disgyblion. Maent yn darparu adnoddau buddiol a dilys, ac yn modelu technegau i gefnogi dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud defnydd da o gwestiynau caeedig i wirio gwybodaeth disgyblion a'u medrau galw i gof. Mae mwyafrif ohonynt yn darparu cwestiynau penagored defnyddiol sy'n annog disgyblion i ymhelaethu ar eu hatebion a dyfnhau eu dysgu. Mewn ychydig o sesiynau, mae'r holi yn hynod effeithiol. Mae athrawon yn procio dealltwriaeth disgyblion, gan eu hannog i feddwl yn ddyfnach a'u helpu i fynegi eu syniadau a'u barn. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu.

Yn y gwersi hynod ysbrydoledig prin, mae staff yn addysgu â brwdfrydedd ac egni. Maent yn cynllunio'n ofalus i ysgogi diddordeb a chymhelliant disgyblion. Yn yr achosion hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau hynod uchel o gyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau a'r hyn y dylent ei gyflawni. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu dealltwriaeth o'r pwnc.

Mewn ychydig o wersi, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Er enghraifft, maent yn darparu tasgau sy'n cadw disgyblion yn brysur ond nid ydynt yn ysgogi cynnydd yn eu gwybodaeth na'u medrau. Nid ydynt yn defnyddio holi yn ddigon da i gael disgyblion i feddwl, ac maent yn aml yn gwneud cyflwyniadau rhy hir lle mae disgyblion yn colli diddordeb.

Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso ystod eang o fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn y sector cynradd. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn y sector uwchradd yn cael cyfleoedd addas i gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn gwahanol bynciau ar draws y cwricwlwm yn briodol. Fodd bynnag, ni chaiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol ei chydlynu'n ddigon strategol ar draws yr ysgol.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth amserol a buddiol ar lafar i helpu disgyblion i adnabod camgymeriadau yn eu gwaith a'u helpu i wella. Yn y sector cynradd, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i nodi camgymeriadau, ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gywiro camgymeriadau a gwella cynnwys gwaith ysgrifenedig. Yn y sector uwchradd, mae tua hanner yr athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol ac adeiladol ar waith disgyblion. Mae eu hadborth yn helpu disgyblion i ddeall beth maent wedi'i wneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, pan mae adborth ysgrifenedig yn llai effeithiol, nid yw'n helpu disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith. Yn yr achosion hyn, nid yw sylwadau athrawon yn ddigon manwl gywir i fod o fudd i ddisgyblion.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn adlewyrchu natur wledig yr ardal. Mae arweinwyr yr ysgol wedi dechrau datblygu gweledigaeth fwy cydlynus ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, er ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd ar gyfer hyn. Maent yn dechrau gweithio gyda'i gilydd ar draws yr ysgol a'r meysydd dysgu a phrofiad i gynllunio profiadau dysgu sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol. Yn yr enghreifftiau cryfaf, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am eu 'cynefin'. Er enghraifft, yng ngwersi'r dyniaethau ym Mlwyddyn 7, mae disgyblion yn dysgu am hanes Siartwyr Llanidloes.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru, er enghraifft trwy Eisteddfodau a dathliadau Dydd Santes Dwynwen. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunaniaeth a'u treftadaeth trwy ddysgu am hanes Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 yn dysgu am fywyd Owain Glyndŵr. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar gyfleoedd addas i ddysgu am hanes a phrofiadau cymunedau a phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o bynciau opsiynau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae arlwy'r cwricwlwm ôl-16 yn helaeth ac yn cael ei gyfoethogi trwy bartneriaethau a chydweithio llwyddiannus ag ysgolion uwchradd eraill. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn darparu cyrsiau galwedigaethol perthnasol i gefnogi dyheadau a diddordebau disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cymorth ac arweiniad priodol i ddisgyblion wneud dewisiadau gwybodus am eu camau nesaf a'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae staff yn cyfoethogi'r cwricwlwm trwy ddarparu ystod eang o ymweliadau addysgol ar gyfer disgyblion yn y sector cynradd a'r chweched dosbarth, ac ychydig o gyfleoedd gwerthfawr ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion yn y sector uwchradd.

Yn y sector cynradd, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am sut i gadw'n ddiogel. Yn ddiweddar iawn, mae'r arweinwyr wedi cyflwyno ymagwedd fwy strwythuredig at addysgu addysg bersonol a chymdeithasol er mwyn cyflwyno sesiynau ag iddynt ddiben gwell dros gyfnod yn y sector cynradd. Mae darpariaeth gwricwlaidd ar gyfer iechyd a lles yn y sector uwchradd yn darparu

cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol. Maent yn meithrin ymwybyddiaeth gynyddol o faterion allweddol, fel byw bywyd iach, aros yn ddiogel ar-lein, addysg cydberthynas a rhywioldeb.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae’r ysgol yn darparu lefel uchel o gymorth ac arweiniad ar gyfer ei disgyblion, wedi’i hategu gan ethos cynnes a gofalgar. Mae’r ysgol, sy’n canolbwyntio ar berthnasoedd gweithio da a pharch pobl at ei gilydd, yn annog aelodau o gymuned yr ysgol i ymfalchïo yn eu rhan ym mywyd yr ysgol ac wrth iddynt ryngweithio â phobl eraill.

Ceir cymorth cynhwysfawr ar gyfer iechyd emosiynol, corfforol ac iechyd meddwl disgyblion, a’u lles. Mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi am gymorth, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Mae staff yn sicrhau bod unigolion neu grwpiau o ddisgyblion sydd angen cymorth yn cael eu nodi, a rhwystrau rhag dysgu yn cael eu dileu fel bod disgyblion yn gallu elwa ar bob agwedd ar fywyd ysgol. Mae staff yn gweithio’n agos gydag ystod eang o bartneriaid i gynorthwyo disgyblion â’u datblygiad personol. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod disgyblion yn gallu troi at weithwyr ieuenctid a manteisio ar wasanaethau cwnsela, fel y bo’n briodol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o holiaduron lles disgyblion. O ganlyniad, caiff y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ei haddasu yn unol â hynny i gynnwys ffocws ar destunau perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn elwa ar ddysgu am destunau sydd fwyaf perthnasol i’w grŵp oedran ac sy’n cael effaith negyddol ar eu lles.

Yn aml, mae gwasanaethau’r ysgol yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau cyfredol sy’n cefnogi datblygiad dealltwriaeth gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Mae staff yn darparu amser myfyrio gwerthfawr i ddisgyblion ystyried materion o fewn y gymuned, Cymru a’r byd ehangach. Mae’r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd parchu amrywiaeth. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr yn ystod gwersi hanes i ddysgu am y rhagfarn a wynebai’r Iddewon yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Caiff disgyblion oedran cynradd gyfleoedd tebyg i ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb a chynwysoldeb trwy ddysgu am bobl lwyddiannus sydd ag ADY, fel Scott Quinnell ac Albert Einstein.

Rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion oedran cynradd ddatblygu medrau arwain fel aelodau o sawl grŵp gweithredol i ddisgyblion. Mae staff yn dechrau datblygu rôl pwyllgorau disgyblion yn y sector uwchradd. Er enghraifft, mae Llysgenhadon Chwaraeon o’r sector uwchradd yn hyfforddi eu cyfoedion iau. Mae staff yn darparu gweithgareddau allgyrsiol gwerthfawr fel clybiau chwaraeon, Clwb Band Roc a chyfleoedd i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae’r ysgol yn darparu arweiniad cydlynus a gwerthfawr sy’n helpu disgyblion a’u teuluoedd i archwilio dewisiadau gyrfa yn y dyfodol. Mae staff yn trefnu arweiniad teilwredig ar yrfaoedd ar gyfer disgyblion ag ADY, ac mae’r ysgol yn cefnogi cyfnod pontio disgyblion i fywyd oedolyn, hyfforddiant a gwaith.

Mae’r cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder yn yr ysgol. Mae staff yn deall rhwystrau disgyblion rhag llwyddo yn dda ac mae disgyblion yn elwa ar ymyriadau

buddiol ar gyfer eu hanghenion academaidd a chymdeithasol. Mae'r ysgol wedi datblygu ei darpariaeth yn briodol, yn unol â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae staff yn gwneud defnydd priodol o broffiliau un dudalen sy'n nodi ffyrdd defnyddiol o gynorthwyo disgyblion ag ADY. Mae cynlluniau datblygu unigol disgyblion yn cynnwys targedau manwl i'w cynorthwyo i wneud cynnydd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn briodol, ar y cyfan. Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da ac yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i fonitro a mynd i'r afael â phresenoldeb gwael. Er enghraifft, mae wedi datblygu strategaethau llwyddiannus yn yr 'Hafan' i gynorthwyo disgyblion sy'n orbryderus am fynychu'r ysgol i ailintegreiddio i wersi. Mae hyn wedi golygu bod disgyblion unigol, a oedd yn gweld mynychu'r ysgol yn her ar un adeg, wedi gwella'u presenoldeb erbyn hyn. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, tynnwyd sylw'r tîm arolygu at ychydig o faterion yn ymwneud â diogelu. Trafodwyd y rhain gyda'r pennaeth a chynrychiolwyr o'r corff llywodraethol a'r awdurdod lleol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio'n ddiwyd ac yn frwdfrydig i sefydlu dulliau a phrosesau i alluogi'r ysgol bob oed newydd i lwyddo. I gefnogi cyfnod pontio'r ysgol i fod yn ysgol bob oed, ailstrwythurwyd yr uwch dîm arweinyddiaeth a newidiwyd cyfrifoldebau arweinwyr canol.

Mae rolau uwch arweinwyr yn glir ac yn cael eu dosbarthu'n deg rhwng y tîm. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o'u cyfrifoldebau ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau o ddydd i ddydd yn effeithiol. Mae ganddynt ffocws cryf ar feithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â staff, disgyblion a phartneriaid allanol ac mae gan yr ysgol ethos cymunedol cryf. Fodd bynnag, megis dechrau y mae eu gwaith i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr ysgol, ac mae natur, cyfeiriad strategol a disgwyliadau'r ysgol yn aneglur. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod uwch arweinwyr yn canolbwyntio gormod ar faterion gweithredol. Er gwaethaf y diffygion pwysig hyn, mae'r addysgu a'r ddarpariaeth yn gryf, ar y cyfan.

Mae goruchwyliaeth strategol arweinwyr canol o feysydd cyfrifoldeb ar draws yr ysgol gyfan yn rhy amrywiol. Mewn lleiafrif o achosion, lle ceir arfer hynod gryf, mae gan arweinwyr oruchwyliaeth glir o safonau, darpariaeth, a datblygiadau o fewn eu meysydd dysgu, er enghraifft mewn llawer o agweddau ar ddarpariaeth gynradd ac yng nghyfadrannau'r dyniaethau a'r Gymraeg.

Mae gan uwch arweinwyr drefniadau addas gydag arweinwyr canol, yn unol â'u trefniadau rheoli llinell. Eir i'r afael yn briodol â chamau gweithredu o'r cyfarfodydd hyn, ac mae uwch arweinwyr yn sicrhau cysondeb o ran pa faterion sy'n cael eu hystyried, a sut. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn glir ac yn galluogi arweinwyr i ddwyn pobl eraill i gyfrif yn briodol. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar dwf proffesiynol fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad, ac yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol i athrawon ddatblygu a bodloni eu targedau. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnal addysgu o ansawdd cyson dda ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant o ddysgu proffesiynol ac yn cynnig ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer staff, sy'n cynnwys cydweithio ag ysgolion

eraill, hyfforddiant mewnol, a gwaith gyda darparwyr allanol priodol. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau presennol yr ysgol. Er enghraifft, mae staff wedi cael hyfforddiant er mwyn datblygu ystod well o fedrau digidol disgyblion. Mae athrawon yn cydweithio ar brosiectau ymchwil gwerthfawr, sy'n helpu hyrwyddo'u dealltwriaeth o addysgeg sy'n berthnasol i'w meysydd pwnc, ac mae hyn yn cael effaith dda ar arfer ystafell ddosbarth.

Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig o ran diwygio ADY lle gwnaed cynnydd da yn rhoi'r gofynion ar waith. Mae arweinwyr hefyd yn rhoi ystod briodol o ddulliau ar waith i helpu lliniaru effaith tlodi ar les disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn rhoi cymhorthdal ar gyfer costau gwisg ysgol, yn cyfrannu tuag at ymweliadau addysgol, ac yn darparu cynhyrchion hylendid, fel y bo'n briodol. Nid yw cynnydd yr ysgol tuag at flaenoriaethau cenedlaethol eraill fel sefydlu gweledigaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Megis dechrau cael eu rhoi ar waith y mae dulliau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol, ac mae arferion ar draws yr ysgol yn anghyson. Mae blaenoriaethau presennol yr ysgol yn synhwyrol a pherthnasol, ond mae'r camau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn canolbwyntio'n bennaf ar gwblhau tasgau. Mae casglu tystiolaeth uniongyrchol o gynnydd ac o ansawdd y ddarpariaeth yn rhy amrywiol ar draws yr ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr yn cynnal teithiau dysgu defnyddiol, yn craffu ar lyfrau disgyblion ac yn gwrando ar farn disgyblion a staff. Mae ychydig o enghreifftiau o'r gweithgareddau hyn yn darparu tystiolaeth gadarn o ansawdd y ddarpariaeth a'r effaith y mae'n ei chael ar y deilliannau ar gyfer disgyblion. Yn gyffredinol, nid yw'r gwerthusiadau trosfwaol a nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn ystyried effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion yn ddigon da.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyflawni eu rolau'n frwdfrydig. Maent yn cynnig lefel briodol o her, pan fo'n berthnasol. Maent yn cyfrannu at werthuso gwaith yr ysgol trwy weithgareddau amrywiol ac mae ganddynt amgyffrediad da o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn ymwybodol o'u dyletswydd i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n briodol â rhieni trwy ffyrdd amrywiol, fel cylchlythyr rheolaidd a negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r pennaeth yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus gyda goruchwyliaeth briodol gan lywodraethwyr. Mae gwariant grant yn briodol ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ddarpariaeth lles yr ysgol. Defnyddir y grant datblygu disgyblion yn briodol i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er enghraifft i roi swm ychwanegol o arian at gost ymweliadau addysgol.

Er bod arweinwyr yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a datblygu perthnasoedd gweithio buddiol, ar y cyfan, nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar ychydig o feysydd pwysig o waith yr ysgol, fel sicrhau bod datblygiad graddol medrau disgyblion yn bwrpasol a chydlynus.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  26/06/2024